CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

373/51

**ECONOMEG – EC3**

P.M. DYDD GWENER, 8 Mehefin 2007

($1\frac{1}{4}$ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **unrhyw ddau** gwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Atgoffir chi bod rhaid cyflwyno atebion clir, trefnus a graenus eu hiaith.

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn.*

**1.** **NID YW CODIAD YM MHRISIAU EGNI YN CAEL FAWR DDIM O EFFAITH AR ALW**

*(a)* Eglurwch, gydag enghreifftiau, pam mae gan nwyddau a gwasanaethau gwahanol elastigeddau pris galw gwahanol. [10]

*(b)* Gwerthuswch y farn mai'r unig ffordd y gall cwmni godi ei dderbyniadau yw trwy ostwng pris ei nwyddau. [10]

**2.** **ALLYRIANNAU AWYRENNAU** *(aircraft emissions)* **I DDYBLU ERBYN 2030 ER GWAETHAF JETIAU TECHNOLEG UCHEL**

*(a)* Diffiniwch fethiant y farchnad ac eglurwch, gydag enghreifftiau, pam mae llygredd yn ganlyniad i fethiant y farchnad. [10]

*(b)* Gwerthuswch y mesurau y gallai'r Llywodraeth eu cyflwyno i ostwng llygredd o awyrennau jet. [10]

**3.** **MAE CYFLENWAD ARIAN Y DU YN TYFU 16%**

*(a)* Eglurwch sut mae creu credyd gan fanciau masnachol fel *Barclays* yn effeithio ar y cyflenwad arian. [10]

*(b)* Trafodwch y farn mai polisi ariannol yw'r unig ffordd effeithiol o reoli lefel prisiau yn y DU. [10]

**4.** **MAE TWF CMC Y DU WEDI DIBYNNU'N HELAETH AR GYNNYDD MEWN TREULIANT A GWARIANT LLYWODRAETH**

*(a)* Eglurwch y ffactorau sy'n pennu *(determine)* lefel treuliant yn economi'r DU. [10]

*(b)* Gwerthuswch y farn fod cynnydd mewn buddsoddiant a chynnydd mewn allforion yn well i'r economi na chynnydd mewn treuliant a chynnydd yng ngwariant llywodraeth. [10]

**5.** **"MAE TORIADAU TRETHI WEDI CREU PUM MILIWN O SWYDDI NEWYDD YN YR UD." GEORGE W BUSH**

*(a)* Gan ddefnyddio dadansoddiad galw cyfanredol a chyflenwad cyfanredol, eglurwch sut y gall toriadau yng nghyfraddau treth incwm greu cyflogaeth. [10]

*(b)* Trafodwch bolisïau economaidd, **ar wahân i** doriadau mewn treth incwm, a allai gael eu cyflwyno i greu cyflogaeth. [10]

**6.** **MAE MEWNFORION RHAD O DDILLAD O CHINA YN ERGYDIO DIWYDIANT TECSTILAU YR UNDEB EWROPEAIDD**

*(a)* Eglurwch fuddion *(benefits)* masnach rydd. [10]

*(b)* A ddylai'r Undeb Ewropeaidd osod tollau mewnforio ar ddillad rhad o China? [10]